

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth y 9ed o Fai 2017.

1. **Presennol:** Gwyndaf Roberts (Cadair), OP Huws, Hefina MW Roberts - Llanllyfi; Ffion Jones – Nantlle; Harry Wyn Owen – Talysarn; Dafydd Thomas – Nebo; Justin Davies, Barry Bracegirdle - Penygroes / **Ymddiheuriadau:** Sharon W Jones – Talysarn, Nerys Williams – Penygroes. Judith Humphreys (Cyngorydd Sir) – ymddiheuro y byddai yn cyrraedd yn hwyr.
2. **Etholiad.** Seddi gwag – gofyn wrth Cyngor Gwynedd am y Rhybuddion i'w arddangos, ac wedyn caiff y Cyngor Cymuned yr hawl i gyfethol.
3. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan buddiant.
4. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Ebrill.** Barry Bracegirdle yn datgan cywirdeb y cofnodion a Harry Wyn Owen yn eilio.
5. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Dim ymateb i'r llythyr ymholi am gyfraniad y Cyngor Cymuned i'r gwasanaeth llyfrgell ym Mhenygroes; Wedi gyrru ymholiad arall ynglyn a'r cerrig ar y palmant gwyrdd ger Hafod Unos, Nasareth; Llwybr Taleithin Isaf – gofyn wrth Cyngor Gwynedd i gwtogi'r coed.
6. **Taflen Ariannol a Chyllid.** Cymeradwywyd gan y Cyngor.
7. **Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio.** Ymateb y Cyngor Cymuned i gynnig y pwyllgor cydweithio – **penderfyniad** cael prisiau cytundebau ar gyfer cynghorau ar wahan, a chael prisiau cytundeb ar y cyd I gymharu ac I weld os byddai hyn yn lleihau'r pris. Y Cyngor yn teimlo y byddai'n rhy ddrislyd cael un Cyngor yn gyfrifol am lwybrau pawb a Chyngor arall yn gyfrifol am fynwentydd. Anscrwydd am ddyfodol gwasanaeth torri gwair llwybrau. Tendo'r gwaith yn flynyddol mesul rhan.
Judith yn cyrraedd y cyfarfod. Llongyfarchwyd Judith ar gael ei hethol yn Gynghorydd Sir dros Penygroes. Gwahodd y Cynghorwyr Sir I gyd fis nesaf er mwyn trafod ffyrdd o gydweithio ac ati. Trafodaethau ac ymholiadau ar y gweill am gynllun paneli solar – OP Huws yn datgan fod Dafydd Watts (ynni) yn mynychu cyfarfod nos yfory.
8. **Cynllunio:**
C17/0304/22/LL –Allt Felen House, Penygroes –dymchwel yr adeilad presennol a chodi modurdy newydd yn ei le. **Penderfyniad** dim gwrthwynebiad.
9. **Gohebiaeth.**
Cyngor Gwynedd: Ymatebion priffyrdd. Darllenwyd yr ymatebion.
*Cais Trwyddedu Eiddo – Co-op. **Penderfyniad** gwrthod ehangu mwy ar yr oriau sydd ar y drwydded bresennol.
*Ymateb – cyfyngiad parcio Penygroes. Problemau parcio ar y palmant wrth capel Soar ac yn uwch I fyny. A oes unrhyw beth all Cyngor Gwynedd ei wneud ynghylch y sefyllfa? Problemau parcio ar y palmant yn Llanllyfni hefyd – **penderfynwyd** trefnu cyfarfod yn Llanllyfni gyda'r Cynghorydd Sir, Aelodau Llanllyfni a dau Swyddog Cyngor Gwynedd. Cysylltu efo Craig i holi am ddyddiadau cyfleus.
*Cadarnhad taliad cyntaf Praesept. Wedi ei dderbyn yn y cyfrif banc.
*Pwyllgor Safonau – Penodi Aelod Pwyllgor Cymunedol. Neb a diddordeb.
*Gorchymyn Gwaharddiad Trafnidiaeth – Llanllyfni – ail rybudd. Er gwybodaeth.
Arall:
*Diolch – Pwyllgor Mynwent Tai Duon. Llythyr yn diolch am y cyfraniad ariannol.
*Newid Llofnodwyr Sieciau – Banc HSBC. Angen trefnu cyfarfod yn y banc – penodwyd y canlynol fel llofnodwyr newydd - Gwyndaf Roberts a Barry Bracegirdle. Y ddau yn cytuno i fod yn swyddogion llofnodi sieciau. Dafydd Thomas yn cytuno i archwilio a chysoni treuliadau ariannol yn fewnol.
*Cylchgrawn Chwarae Cymru. Er gwybodaeth.
*Nosweithiau Parc Cenedlaethol Eryri (Mehefin).
*Aelodaeth Un Llais Cymru – cadarnhad.
*Tim Okenden a'r Corff Gwarchod. Neb a diddordeb.
*Gweithdy Wales and West.
*Templed Polisi Cyfryngau Cymdeithasol. Mabwysiadu ar ran y Cyngor Cymuned.
*Co-op – ymateb i ymholiad. Dim ymateb pendant wedi dod I'n ymholiad am doiledau cyhoeddus yn y Co-op newydd, nac ychwaith beth yw bwriad y cwmni gydag adeilad presennol y Co-op unwaith y daw yn wag.

*Cyfle i roi cynigion ar gyfer cyfarfod blynyddol Un Llais. Dim cynigion.

*Llythyr Anthony Barrett parthed Awdit Cymru. Pwyso ar Un Llais os bydd trafferthion eto eleni.

*Ymgynghoriad Rheilffordd. Angen coetsus mwy teilwng o Fangor i Gaerdydd. Dylid ei gael yn y gytundeb newydd.

*Bwletin Un Llais. Er gwybodaeth.

*EWE – ymateb parthed Tafarn y Quarry. Darllenwyd yr ymateb, sef bod cais wedi ei wneud i ddymchwel yr adeilad.

*Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

*Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol Cynulliad Cymru. Syniad da dod a'r oed pleidleisio i lawr i 16.

*Ymateb Un Llais parthed tendro ar gyfer prosiect Macpelah. Dylid gweithredu yn unol a chyffiniau rheolau ariannol y Cygor Cymuned.

10. **Materion Pentrefi Nantlle** Mesh ar y bont yn y pentref yn beryglus. Talysarn Gwastraff tu ol i Gloddfa Glai, caniau gwag yn cael eu lluchio rhwng y llwybr a tai'r henoed. Penygroes bagiau du wrth y biniau ailgylchy yn y pentref – hyn yn broblem hefyd yn Talysarn. Bysiau yn rhwystro lorïau yn y maes parcio ym Mhenygroes. Cais i symud yr arosfan bws o'r safle presennol ger y siop cebabs i efallai wrth y siop Co-op newydd. Holi Cyngor Gwynedd pa mor ymarferol fyddai symud yr arosfan. Nebo Y Pwyllgor Ardal wedi gofyn I Gyngor Gwynedd fabwysiadu'r llwybr cyhoeddus at y llyn. Llanllyfni OP Huws am holi am bris deunyddiau I drwsio'r fainc yn y pentref. Penygroes Julie Holland am nol pamffledi baw cwn

11. **Llwybrau a Mynwentydd.** Ymholiad gan Anwen Harman am lwybr Ffatri, Penygroes – ymateb drwy gyfeirio Mrs Harman at y Gofrestra Tir i ddarganfod pwy yw perchennog y tir. Angen addasu incwm llwybrau ar y daenlen ariannol.

12. **Materion yn ymwed a'r heddlu.** Rhoi gwahoddiad I'r Heddlu I ddod I gyfarfod unwaith eto.

13. **Materion ariannol.** Ffon/Rhyngwyd Clerc £25; Derbynebaw Clerc; Designer Signs. Cymeradwyo.

14. **Ceisiadau am arian** Dim